# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 14 Rhagfyr 2017

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Dylan Rees (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Griffiths, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Richard Owain Jones, Shaun Redmond, Alun Roberts, J. Arwel Roberts, Nicola Roberts<br><br>**Llofnodwyr y Cais Galw i Mewn nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor**<br><br>Y Cynghorwyr Bryan Owen, Peter Rogers<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Y Cynghorwyr Llinos Medi Huws (Arweinydd), RG Parry, OBE, FRAgS (Aelod Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff), John Griffith, Aelod Portffolio Cyllid) Richard Dew (Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaeth, Cymunedau a Gwella Cymunedol a Gwasanaethau)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br>Rheolwr Gwasanaethau Pensaernïol (GT)<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd R. Meirion Jones, (Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Datganodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ddiddordeb mewn perthynas ag eitem 3 ar yr agenda.

**2 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Penderfynwyd mabwysiadu'r canlynol –

"O dan Adran 100 (A) (4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail bod gwybodaeth yn cael ei datgelu a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd fel y'i cyflwynwyd. "

## 3 TRAWSNEWID Y GWASANAETH DIWYLLIANT - CARCHAR A LLYS BIWMARES

Cafodd penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd, 2017 i drosglwyddo Carchar a Llys Biwmares i Gyngor Tref Biwmares ei alw i mewn gan y Cynghorwyr Aled Morris Jones, Eric Wyn Jones, Kenneth Hughes, Bryan Owen a Peter Rogers. Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor, benderfyniad y Pwyllgor Gwaith, y cais i alw'r eitem i mewn ac adroddiad a baratowyd ar y cyd gan y Pennaeth Dysgu a'r Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo ar gyfer y Pwyllgor Gwaith ar 27 Tachwedd, 2017.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro bod gan y Pwyllgor dri opsiwn wrth ddod i benderfyniad ar y cais galw i mewn, sef –

- Derbyn y penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 27 Tachwedd, 2017. Yn yr achos hwn, bydd y broses galw i mewn yn dod i ben a bydd penderfyniad y Pwyllgor Gwaith yn dod i rym yn syth ar ôl y cyfarfod hwn.
- Gwrthod y penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith. Yn yr achos hwn, gall y Pwyllgor gyfeirio'r penderfyniad yn ôl i'r Pwyllgor gydag argymhelliad y dylid ei ailystyried a / neu ei ddiwygio. Yna byddai'n rhaid i'r Pwyllgor Gwaith roi ystyriaeth bellach i'r mater o fewn 10 niwrnod gwaith gan gymryd i ystyriaeth unrhyw argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor Sgriwtini. Ar ôl hynny, byddai naill ai'n cadarnhau neu'n diwygio'r penderfyniad gwreiddiol.
- Gwrthod penderfyniad y Pwyllgor Gwaith a chyfeirio'r mater gydag argymhelliad i'r Cyngor Llawn. Nid oes gan y Cyngor unrhyw bŵer i wneud penderfyniad ynglŷn â'r mater oherwydd nid yw'n groes i'r Gyllideb na'r Fframwaith Polisi ac nid yw ychwaith yn anghyson â'r Gyllideb. Byddai'r Cyngor felly yn ymgynnull i ystyried y mater yn unig ac os byddai'n gwrthwynebu'r penderfyniad, ei gyfeirio'n ôl gydag unrhyw sylwadau i'r Pwyllgor Gwaith fel corff sy'n gwneud y penderfyniad.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi gofyn am gyngor gan y Swyddog Monitro ynghylch a oedd hi'n briodol iddo fel un o lofnodwyr y cais galw i mewn, i gadeirio'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Roedd wedi cael cyngor ei fod yn briodol iddo wneud hynny.

Bu i'r Cynghorydd Bryan Owen, fel Aelod Arweiniol y Cais Galw i Mewn esbonio'r rhesymau dros alw i mewn y penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith ar 27 Tachwedd, 2017 fel y'u hamlinellwyd yn y ffurflen gais galw i fewn. Roedd y rhain yn ymwneud â thelerau trosglwyddo'r asedau a'r broses allanoli.

Mewn ymateb, cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor y Pwyllgor at yr adroddiad ysgrifenedig oedd yn nodi'n glir oblygiadau ariannol yr holl opsiynau a ystyriwyd yng nghyswllt trosglwyddiad Carchar a Llys Biwmares. Mae Atodiad 1 yr adroddiad yn disgrifio cronoleg pob cam o'r broses allanoli. Mae'n un o amcanion Cynllun y Cyngor i gefnogi cymunedau i'w helpu i ddatblygu a ffynnu a hefyd i weithio'n arloesol gyda chymunedau i gadw asedau pwysig ar agor. Dywedodd bod y camau a gymerwyd gan y Pwyllgor Gwaith yn cyd-fynd â'r amcan hwnnw.

Eglurodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro y broses gyfreithiol a ddilynwyd o ran y cynnig i drosglwyddo'r ased a chadarnhaodd fod y broses wedi'i dilyn yn briodol. Dywedodd nad oedd unrhyw bosibilrwydd realistig o her.

Gofynnodd y Cynghorydd Bryan Owen i'r Pwyllgor dderbyn galw i mewn y penderfyniad a'i gyfeirio'n ôl i'r Pwyllgor Gwaith i'w ail-ystyried gyda golwg ar ail-redeg y broses allanoli ar gyfer trosglwyddo asedau Carchar a Llys Biwmares.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a'r sylwadau a wnaed. Roedd y mwyafrif o Aelodau'r Pwyllgor o blaid peidio â derbyn galw i mewn y penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith a hynny am eu bod yn fodlon mai'r opsiwn a gymeradwywyd oedd yr opsiwn mwyaf manteisiol yn ariannol i'r Cyngor Sir; bod prosesau wedi'u cynnal a'u dilyn yn briodol a bod trosglwyddo'r asedau i awdurdod cyhoeddus arall yn golygu bod y Carchar a'r Llys, fel asedau treftadaeth a thwristiaeth gwerthfawr, yn parhau ym mherchenogaeth gyhoeddus yn eu cymunedau. Wrth ddod i'r casgliad hwn bu i'r Pwyllgor hefyd geisio sicrwydd/eglurhad ynghylch rhai materion penodol mewn perthynas â'r trosglwyddiad.

Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid gwrthod galw i mewn penderfyniad y Pwyllgor Gwaith i mewn perthynas â throsglwyddo Carchar a Llys Biwmares i Gyngor Tref Biwmares. Yn y bleidlais ddilynol, cafodd y cynnig ei gario gan y mwyafrif o Aelodau'r Pwyllgor.

**Penderfynwyd gwrthod galw i mewn benderfyniad y Pwyllgor Gwaith yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd, 2017 mewn perthynas â throsglwyddo Carchar a Llys Biwmares i Gyngor Tref Biwmares am y rhesymau a roddwyd.**

*Felly daw penderfyniad y Pwyllgor Gwaith i rym yn syth.*

**Cynghorydd Aled Morris Jones**
**Cadeirydd**